# Adroddiad Blynyddol 2012–13

## Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Gorffennaf 2013

## Y Bwrdd Taliadau

**Y Gwir Anrhydeddus Syr George Reid (Cadeirydd)**
**Sandy Blair CBE**
**Mary Carter**
**Stuart Castledine**
**Yr Athro Monojit Chatterji**

Rhoddir bywgraffiadau o aelodau'r Bwrdd yn Atodiad A.

## Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

**Carys Eyton Evans**, Clerc
**Al Davies**, Dirprwy Glerc (o fis Medi 2012)
**Dafydd Kidd,** Dirprwy Glerc (Mawrth 2012 – Medi 2012)
**Lisa Hatcher**, Cymorth Tîm

Gellir gweld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org
Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Clerc y Bwrdd Taliadau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8598
Ffacs: 029 2089 8117
E-bost: Remuneration@wales.gov.uk

# Cynnwys


**Cyflwyniad** ........ **1**

**Pennod 1: Y Bwrdd Taliadau – cylch gwaith a gweithgareddau** ........ **3**

**Pennod 2: Adolygu ein Penderfyniadau** ........ **9**

**Pennod 3: Adolygu fframwaith staffio Aelodau'r Cynulliad** ........ **13**

**Pennod 4: Rhaglen Waith 2013-14** ........ **25**

**Atodiad A: Cylch Gwaith ac Aelodaeth y Bwrdd Taliadau** ........ **27**

**Atodiad B: Dadansoddiad o Gostau'r Bwrdd** ........ **29**

# Cyflwyniad

Mae'r Bwrdd Taliadau bob amser wedi anelu at gyflwyno – flwyddyn cyn i'r Pumed Cynulliad ddechrau – strwythur cyflogau, pensiynau a lwfansau – sy'n deg, yn glir, yn rhoi gwerth am arian ac yn addas at y diben.

Dros y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf, mae'r Bwrdd wedi bod wrthi'n adolygu'r system o lwfansau presennol, y mae rhai ohonynt wedi bodoli ers i'r Cynulliad gael ei sefydlu ac eraill sy'n ychwanegiadau ac yn ddiwygiadau diweddarach. Mae hyn yn gryn dipyn o waith, a grynhoir ym Mhennod 1 o'r adroddiad hwn.

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y ddogfen hon (rhwng mis Ebrill 2012 a diwedd mis Mawrth 2013) cyfarfu'r Bwrdd yn ffurfiol chwe gwaith. Rhwng cyfarfodydd, bu aelodau'n ymgynghori â'i gilydd dros y ffôn a thrwy e-bost ac maent wedi cyflawni amrywiaeth o waith ymchwil o fewn eu cymwyseddau proffesiynol unigol. Fel Cadeirydd, rwyf wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â'r Llywydd ac arweinwyr y pleidiau ac wedi cyfarfod ag Aelodau'r Cynulliad a'u staff yn fynych.

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar dri phrif faes:


- Rydym wedi cynnal adolygiad manwl o lwfans staffio yr Aelodau.
- Rydym wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad ac adolygiad parhaus o bensiynau Aelodau. Byddwn yn gwneud Penderfyniad ar y mater hwn erbyn diwedd 2014, cyn pennu cyfanswm taliadau Aelodau'r Cynulliad ar gyfer y Pumed Cynulliad yn 2015.
- Rydym wedi ystyried, yn rheolaidd, faterion yn ymwneud â chydnabyddiaeth ariannol y cred Aelodau eu bod yn haeddu cael eu diwygio. Caiff ein penderfyniadau yn y maes hwn eu nodi yn yr adroddiad.

Mae'r Cynulliad wedi esblygu'n sylweddol ers iddo gael ei sefydlu. Dechreuodd fel corff corfforaethol ac mae bellach yn ddeddfwrfa lawn yn ei rinwedd ei hun. Mae hynny'n esgor ar lawer mwy o gyfrifoldebau, yn enwedig ym meysydd craffu ar bolisi cyhoeddus, deddfwriaeth a chyllid.

Rydym yn cydnabod yn llwyr bwysigrwydd y gwaith y mae Aelodau a'u staff yn ei wneud yn eu hetholaethau a'u rhanbarthau. Dyma lle mae pobl Cymru yn ymgysylltu â'u cynrychiolwyr etholedig. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth sydd gennym yn nodi y byddai'n ddymunol targedu mwy o adnoddau at Fusnes Ffurfiol y Cynulliad er mwyn cyflawni cyfrifoldebau newydd a chynyddol.

Nid yw hyn yn beth hawdd yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mewn deddfwrfa â dim ond 60 o Aelodau. Yn yr adroddiad hwn, amlinellwn fesurau i wella gallu ac adnoddau yn y maes polisi. Byddem wedi hoffi mynd ymhellach, fel yr eglurir ym Mhennod 3, ond cydnabyddwn fod angen ymgynghori ymhellach ar rai materion cyn gwneud penderfyniad yn 2014.

Yn y flwyddyn i ddod, bydd tair egwyddor yn parhau i lywio ein gwaith: rhoi lefel taliadau i Aeldoau'r Cynulliad sy'n adlewyrchu natur bwysig eu gwaith; sicrhau bod digon o adnoddau ar gael iddynt wneud y gwaith hwnnw; a sicrhau cywirdeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwariant cyllid cyhoeddus.



**Y Gwir Anrhydeddus Syr George Reid, Cadeirydd y Bwrdd Taliadau, Gorffennaf 2013**

# Y Bwrdd Taliadau – cylch gwaith a gweithgareddau

*Mae'r bennod hon yn nodi swyddogaethau a chylch gwaith y Bwrdd ac yn crynhoi ei waith ers iddo gael ei sefydlu.*

## Sefydlu a Phenodi

1. Mae Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gorff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu taliadau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Cafodd y Bwrdd ei sefydlu gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 (y Mesur), a gafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 22 Gorffennaf 2010.

2. Cafodd y Bwrdd ei benodi gan weithdrefn penodiadau cyhoeddus dryloyw a gynhaliwyd yn ystod haf 2010. Rhoddir bywgraffiadau holl aelodau'r Bwrdd yn Atodiad A. Mae aelodau'r Bwrdd Taliadau wedi cael eu penodi am gyfnod penodol o bum mlynedd, ac ni chânt wasanaethu fel aelod am fwy na dau dymor.

3. Cafodd y penodiadau eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Gomisiwn y Cynulliad ar 21 Medi 2010, a chynhaliodd y Bwrdd ei gyfarfod cyntaf ar 1 Hydref 2010.

## Swyddogaethau ac Amcanion

4. Ein swyddogaethau, fel y nodir yn adran 3 o'r Mesur, yw pennu lefel taliadau a system cymorth ariannol Aelodau'r Cynulliad sy'n eu galluogi i gyflawni eu rolau.

5. Mae'r Mesur yn nodi tri amcan allweddol y mae'n rhaid i ni geisio eu cyflawni wrth wneud Penderfyniad, sef:

   - darparu lefel taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad sy'n adlewyrchiad o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni, ac nad yw, ar sail ariannol, yn atal personau rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad

   - darparu adnoddau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad sy'n ddigonol i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau;

   - sicrhau cywirdeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwariant cyllid cyhoeddus.

## Gofynion Statudol

6. Wrth gyflawni ein swyddogaethau, mae adran 3 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i ni adolygu'n barhaus weithrediad ein penderfyniadau a'u heffeithiolrwydd, gan roi sylw penodol i'r profiad a geir drwy roi ein Penderfyniadau ar waith, unrhyw newidiadau yn swyddogaethau Aelodau'r Cynulliad, ac unrhyw newidiadau perthnasol eraill yn yr amgylchiadau.

7. Er ein bod yn annibynnol ar y Cynulliad - nid yw'r Cynulliad na Chomisiwn y Cynulliad yn ein llywio nac yn ein rheoli - mae adran 2 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i ni, wrth arfer ein swyddogaethau, ymgynghori â'r rheini y mae'n debyg y bydd ein penderfyniadau yn effeithio arnynt. Mae hyn yn cynnwys Aelodau, staff a gyflogir gan Aelodau neu grwpiau o Aelodau, undebau llafur perthnasol ac unrhyw un arall sy'n briodol yn ein barn ni.

8. Mae Adran 2 o'r Mesur yn caniatáu i ni gyfarfod yn breifat os credwn ei bod yn briodol gwneud hynny, ond mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni weithredu mewn ffordd agored a thryloyw a chyhoeddi, ar wefan y Cynulliad, y cyfryw wybodaeth a fydd yn galluogi'r cyhoedd i gael ei hysbysu am ein gweithgareddau. Hefyd, mae adran 11 yn ei gwneud yn ofynnol i ni osod gerbron y Cynulliad adroddiad blynyddol ar ein gweithgareddau, gan gynnwys ein defnydd o adnoddau, ymhob blwyddyn ariannol.

## Egwyddorion

9. Mae ein gwaith hyd yma wedi cael ei ategu gan gyfres o egwyddorion clir:

   - dylai cymorth ariannol a thaliadau Aelodau gefnogi diben strategol y Cynulliad a hwyluso gwaith ei Aelodau;
   - rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru;
   - rhaid i system cymorth ariannol Aelodau'r Cynulliad fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy a chynrychioli gwerth am arian i'r trethdalwr.

## Methodoleg

10. Mae'r penderfyniadau a nodir yn ein Penderfyniad yn deillio o adolygiad tryloyw a chyfranogol o'r system cymorth ariannol a thaliadau, ac maent yn seiliedig ar y dystiolaeth y gwnaethom ei chasglu gan Aelodau'r Cynulliad, eu staff, ac unigolion, sefydliadau a ffynonellau perthnasol eraill.

11. Mae'r dystiolaeth a gawsom wedi ein galluogi i arddel barn glir am ddibenion strategol y Cynulliad a'r ffordd y mae Aelodau'n cyflawni'r dibenion hynny. Rydym wedi rhoi system taliadau ar waith sy'n targedu adnoddau er mwyn cefnogi'r dibenion hyn a phob agwedd ar rôl Aelod Cynulliad. Ers cyflwyno ein Penderfyniad cyntaf rydym wedi cael adborth gan Aelodau ac, yn unol â'n cylch gwaith, rydym wedi ymateb fel bo angen drwy ystyried diwygiadau ac ychwanegiadau i'n Penderfyniadau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben.

12. Drwy gydol ein gwaith, ac yn unol ag adran 9 o'r Mesur, rydym wedi derbyn cymorth clercio ac ymchwil, cyngor cyfreithiol a chyngor arall, a chymorth gweinyddol gan staff Comisiwn y Cynulliad. Rhoddir y cymorth hwn fel rhan o ddyletswyddau cyffredinol staff y Comisiwn ac felly nid yw'r Bwrdd Taliadau yn mynd i unrhyw gostau ychwanegol.

## Ymgynghori a Chasglu Tystiolaeth

13. Drwy gydol ein gwaith, ac yn unol ag Adran 2 o'r Mesur, rydym wedi ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r sawl sydd wedi rhoi o'u hamser i ddarparu tystiolaeth i ategu ein gwaith ers i ni gael ein sefydlu.

14. Rydym wedi ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad yn rheolaidd ers gwneud ein Penderfyniad cyntaf ac wedi casglu adborth sydd wedi ein galluogi i werthuso effeithiolrwydd y systemau rydym wedi eu rhoi ar waith. Byddwn yn parhau i weithredu yn y ffordd gyfranogol hon er mwyn sicrhau bod ein penderfyniadau yn parhau i fod yn addas at y diben.

## Addas i'r Diben (Hydref 2010 - Mawrth 2011)

15. Gwnaethom gynnal cam cyntaf ein gwaith - sef pennu system cymorth ariannol Aelodau'r Cynulliad o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad - rhwng mis Hydref 2010 a mis Mawrth 2011.

16. Cafodd ein Penderfyniad cyntaf ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau ei wneud ym mis Mawrth 2011. Law yn llaw â'r Penderfyniad hwnnw cafwyd adroddiad, sef *Addas i'r Diben*, a eglurodd ein hegwyddorion, ein methodoleg, yr ymgynghoriad a'r ymchwil a gynhaliwyd gennym, a'n penderfyniadau ynghylch y system briodol o gymorth ariannol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad. Roedd hyn yn cynnwys penderfyniadau ynghylch y canlynol:

- cyflogau Aelodau'r Cynulliad;
- cyflogau a delir i ddeiliaid swyddi ychwanegol;[1]
- cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys costau preswyl, swyddfa a theithio;
- staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys taliadau a recriwtio;
- cymorth i grwpiau pleidiau.

[1] *Yn ystod y cam cyntaf gwnaethom ymdrin â chyflogau ychwanegol y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a'r Llywyddion.*

17. Caiff costau'r gwaith hwn eu cynnwys yn *Adroddiad Blynyddol 2010-11*, a gyhoeddwyd gennym ym mis Tachwedd 2011.

## Taliadau Deiliaid Swyddi (Mai - Gorffennaf 2011)

18. Yn ystod cam cyntaf ein gwaith, yn 2010-11, ni chawsom ddigon o dystiolaeth i wneud penderfyniadau terfynol ynghylch y taliadau priodol ar gyfer arweinwyr y gwrthbleidiau, rheolwyr busnes a chwipiaid, cadeiryddion pwyllgorau a Chomisiynwyr y Cynulliad. Felly, gwnaethom ohirio gwneud penderfyniadau yn y meysydd hyn tan ar ôl etholiad mis Mai 2011. Yn ogystal â rhoi'r cyfle i ni gyflawni mwy o ymchwil a chasglu mwy o dystiolaeth ar rolau a chyfrifoldebau'r swyddi gwahanol, gwnaeth ein galluogi hefyd i ystyried cyfansoddiad gwleidyddol penodol y Pedwerydd Cynulliad, canlyniad refferendwm mis Mawrth 2011 ar roi mwy o bwerau deddfu i'r Cynulliad, a chyfrifoldebau tebygol cadeiryddion pwyllgorau o ganlyniad i strwythur pwyllgorau symlach.

19. Roedd ein Penderfyniad ar gyflogau ychwanegol deiliaid swyddi yn seiliedig ar waith ymgynghori ac ymchwil fanwl, a oedd yn cynnwys casglu tystiolaeth a dadansoddiad trylwyr o rolau a chyfrifoldebau'r swyddi a ystyriwyd. Cafodd y dystiolaeth ei chasglu drwy arolygon, tystiolaeth ysgrifenedig a chyfarfodydd ffurfiol ag Aelodau.

20. Gwnaed ymchwil fanwl gan aelodau o'r Bwrdd ag arbenigedd proffesiynol penodol ym maes taliadau er mwyn llywio ein canfyddiadau. Gwnaethom hefyd ddefnyddio gwaith a wnaed yn flaenorol gan Gomisiwn y Cynulliad, y ddau banel annibynnol ar gymorth ariannol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, a chyrff taliadau eraill.

21. Cyhoeddwyd Penderfyniad wedi'i ddiweddaru ac adroddiad ategol, sef *Taliadau Deiliaid Swyddi*, ym mis Gorffennaf 2011. Amlinellir costau'r gwaith hwn yn Adroddiad Blynyddol 2011-12

## Arbedion

22. Bydd y penderfyniadau rydym wedi eu gwneud a'r trefniadau a roddwyd ar waith yn sgil ein Penderfyniadau yn arwain at arbed £2 filiwn mewn cyllid cyhoeddus dros y Pedwerydd Cynulliad.

## Trefniadau Pensiwn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad

23. Ym mis Mawrth 2011, gwnaethom gytuno na fyddem yn ystyried trefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad nes i ni dderbyn prisiad actiwaraidd 2011 ar gyfer Cynllun Pensiwn yr Aelodau, a chael amser i ystyried yn fanwl oblygiadau adroddiad yr Arglwydd Hutton ym mis Mawrth 2011 ar bensiynau'r sector cyhoeddus a'r ddadl gyhoeddus ar ei gasgliadau.

24. Dechreuom ystyried y maes hwn yn y flwyddyn ariannol flaenorol pan wnaethom gynllunio sut i fynd i'r afael â'r gwaith a'r materion i'w hystyried. Yn ystod y cyfnod adrodd (2012-13) gwnaed gwaith paratoi manwl cyn ymgynghori ag Aelodau ar nifer o opsiynau. Ein nodau ar gyfer yr agwedd hon ar gyfanswm taliadau Aelodau'r Cynulliad yw:

- cyflwyno trefniadau pensiwn sy'n deg, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy yn yr hirdymor;
- diogelu hawliau pensiwn a gaiff eu cronni hyd at ddyddiad gweithredu'r trefniadau newydd;
- sicrhau bod gan Aelodau'r Cynulliad fuddiannau ymddeol priodol.

25. Ers i ni ddechrau gweithio ar y mater hwn, rydym wedi bod mewn cysylltiad agos ag Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn cyfredol sy'n gyfrifol am reoli'r gronfa bensiwn ar ran aelodau'r Cynllun. Byddwn yn sicrhau bod yr Ymddiriedolwyr yn cael eu hysbysu am ein gweithgareddau a'n hystyriaethau yn y maes hwn.

26. Ym mis Hydref 2012, gwnaethom gyflwyno dogfen ymgynghori a oedd yn ceisio barn Aelodau'r Cynulliad ar dri opsiwn posibl ar gyfer cynllun yn y dyfodol sef:

- gwneud newidiadau i'r Cynllun Pensiwn Cyflog Terfynol presennol;
- cyflwyno Cynllun Ailbrisio Enillion Cyfartalog Gyrfa;
- cyflwyno Cynllun Balans Arian Parod.

27. Gwnaethom gomisiynu cyngor allanol arbenigol gan PwC i'n helpu i ddatblygu'r opsiynau hyn, a oedd yn cynnwys seminar technegol ym mis Mehefin 2012 lle daeth yr Ymddiriedolwyr iddi. Cafodd holl Aelodau'r Cynulliad gopi o'n dogfen ymgynghori a chynhaliwyd cynhadledd yn y Cynulliad Cenedlaethol i lansio ein gwaith a chasglu barn. Daeth nifer fawr o bobl i'r digwyddiad yn cynnwys Aelodau'r Cynulliad, cynrychiolwyr o IPSA, Cadeirydd Panel Taliadau Cynulliad Gogledd Iwerddon ac amrywiaeth o arbenigwyr pensiynau o'r sector preifat.

28. Dim ond dau ymateb ffurfiol a gafwyd i'n hymgynghoriad. Roeddem yn siomedig na chafwyd mwy, ond byddwn yn parhau i ymgysylltu â chynifer o Aelodau â phosibl wrth i ni barhau i weithio yn y maes hwn.

29. Ni wnaethom ystyried yr ymatebion hyn nes i *Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013* gwblhau ei hynt drwy Senedd y DU. Rhaid i gynlluniau pensiwn sydd o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru fodloni gofynion y Ddeddf o ganlyniad i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a gafodd ei basio gan y Cynulliad ym mis Ionawr 2013. Mae hyn yn golygu, petai'r Bwrdd yn penderfynu cyflwyno cynllun newydd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, byddai'n rhaid iddo fodloni gofynion y Ddeddf. Mae ei ddarpariaethau allweddol fel a ganlyn:

- cyflwyno cynlluniau sector cyhoeddus enillion cyfartalog gyrfa newydd yn lle cynlluniau cyflog terfynol presennol. Ni fydd modd cronni ymhellach o dan gynlluniau presennol o fis Ebrill 2015 (Ebrill 2014 ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Lleol) oni bai y cytunwyd ar ddiogelwch trosiannol;
- bydd yn ofynnol i unrhyw gynllun newydd gael ei gymeradwyo gan y Trysorlys;

- yn y rhan fwyaf o achosion, bydd oedran pensiwn arferol yn gysylltiedig ag oedran pensiwn y wladwriaeth;

- cap newydd ar gostau cyflogwyr er mwyn rhannu risg newidiadau yng nghostau cynllun rhwng cyflogwyr ac aelodau'r cynllun;

- cyfnod diogelu trosiannol i aelodau sydd agosaf at ymddeol.

30. Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau o ran polisi pensiwn ar lefel y DU ynghyd â newidiadau i bensiynau'r sector cyhoeddus a wneir yn 2015 wrth i ddarpariaethau'r Ddeddf ddod i rym ac, yng nghyd-destun Cymru, bydd y trefniadau pensiwn ar gael i bobl yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw ddatblygiadau sy'n ymwneud â threfniadau cyflogau a phensiynau Aelodau Seneddol yn San Steffan, Aelodau o Senedd yr Alban ac Aelodau o Gynulliad Gogledd Iwerddon.

31. Bydd cam nesaf ein gwaith ar bensiynau yn dechrau yn ystod hydref 2013. Yn y cyfamser, byddwn yn ceisio cyngor arbenigol ar bensiynau (cyfreithiol ac actiwaraidd) er mwyn ein helpu i ystyried ein hopsiynau a sicrhau bod ein gwaith yn drylwyr ac yn gadarn, ac yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol. Nodir yr amserlen arfaethedig ar gyfer ystyried trefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad isod:

- Gorffennaf 2013 - Mawrth 2014: Ceisio cyngor proffesiynol a datblygu gwaith yn y maes hwn, gan gynnwys cyngor ar oblygiadau Deddf Pensiynau'r Sector Cyhoeddus 2013;

- Ebrill - Medi 2014: Cytuno ar gynigion pensiynau ac ymgynghori ag Aelodau ac Ymddiriedolwyr;

- Hydref 2013 - Rhagfyr 2014: Ystyried barn ymgyngoreion;

- Ionawr 2015: Cyhoeddi penderfyniad ar bensiynau a dyddiad newid.

## Costau

32. Rydym wedi trafod trefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad ar gyfer y dyfodol mewn nifer o gyfarfodydd Bwrdd yn 2012-13. Cawsom gyngor arbenigol gan PwC ar Gynllun Pensiwn presennol Aelodau, a oedd yn cynnwys seminar y daeth Ymddiriedolwyr y cynllun presennol iddi ac adroddiad a lywiodd ein hymgynghoriad cyntaf ar y mater. Cost y gwaith a wnaed gan PwC oedd £13,800.

# Adolygu ein Penderfyniadau

*Mae'r bennod hon yn egluro'r newidiadau rydym wedi eu gwneud i'n Penderfyniadau yn ystod y flwyddyn yn dilyn adborth a thystiolaeth gan Aelodau'r Cynulliad.*

## Adolygu ein Penderfyniadau

33. Mae'n ofynnol i ni adolygu ein Penderfyniadau'n barhaus fel eu bod yn parhau i roi'r adnoddau sydd eu hangen ar Aelodau'r Cynulliad i gyflawni eu dyletswyddau. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn gwahodd adborth a thystiolaeth gan Aelodau'r Cynulliad sy'n ein galluogi i asesu effeithiolrwydd ein penderfyniadau a nodi unrhyw feysydd i'w diwygio.

34. Yn sgil adborth a gafwyd, rydym wedi adolygu ein penderfyniadau mewn nifer o feysydd, a restrir isod. Lle bo angen, byddwn yn diwygio ein Penderfyniadau. Bydd y newidiadau a gaiff eu gwneud yn dod i rym ym mlwyddyn ariannol 2013-14.

## Lwfans costau swyddfa

35. Caiff Aelodau hawlio Lwfans Costau Swyddfa sy'n eu had-dalu am yr holl gostau rhesymol sy'n gysylltiedig â rhedeg swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr. Nid yw'r gyfradd ar gyfer y lwfans hwn wedi cynyddu ers yr etholiad ym mis Mai 2011. Rydym wedi cytuno i gynyddu'r swm er mwyn adlewyrchu'r cynnydd tebygol mewn chwyddiant yn y flwyddyn i ddod.

### Penderfyniad

36. Bydd y lwfans ar gyfer costau swyddfa yn 2013-14 yn cynyddu o £16,242 i £16,697 yn unol â chynnydd Mynegai Prisiau Defnyddwyr rhagamcanol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol sef 2.8 y cant, fel y nodwyd yng Nghyllideb Llywodraeth y DU ar gyfer 2013-14.

37. Cost y penderfyniad hwn fydd £27,287.

## Lwfans llety - atgyweiriadau hanfodol

38. Mae Pennod 4 o'n Penderfyniad yn darparu ar gyfer ad-dalu Aelodau am gost aros yng Nghaerdydd dros nos mewn perthynas â chyflawni eu rôl fel Aelodau'r Cynulliad. Yn 2011, gwnaethom leihau nifer yr Aelodau cymwys o 51 i 25. O dan drefniadau trosiannol, mae saith Aelod yn dal i dderbyn ad-daliad am gost llog morgeisi. Gellir hawlio uchafswm o £8,400 y flwyddyn. O bryd i'w gilydd, mae angen i'r Aelodau hyn wneud atgyweiriadau hanfodol i'w heiddo a fyddai, petaent mewn llety wedi'i rentu, yn gyfrifoldeb y landlord.

**Penderfyniad**

39. Byddwn yn diwygio'r Penderfyniad er mwyn galluogi Aelodau cymwys i hawlio cost atgyweirio eu heiddio, hyd at uchafswm o £8,400 y flwyddyn ar gyfer taliadau morgeisi ac atgyweiriadau. Ni ddylai cost yr atgyweiriadau fod yn fwy nag £840 (10 y cant o'r holl lwfans). Rhaid hawlio am atgyweiriadau hanfodol yn unig. Ni fydd cynnydd cyffredinol i'r gyllideb ar gyfer y lwfans hwn.

## Mesurau diogelwch angenrheidiol ar gyfer eiddo nad yw'n brif gartref yr Aelod

40. O bryd i'w gilydd, efallai y bydd Aelodau'r Cynulliad yn wynebu risgiau diogelwch yn rhinwedd eu swydd fel cynrychiolwyr etholedig, er enghraifft bygythiadau i'w cartrefi neu iddynt hwy fel unigolion. Mewn achosion o'r fath, gall fod angen i Aelod unigol wella trefniadau diogelwch ei eiddo yng Nghaerdydd.

**Penderfyniad**

41. Byddwn yn diwygio'r Penderfyniad er mwyn caniatáu ar gyfer cost mesurau diogelwch ychwanegol sy'n angenrheidiol i liniaru'r fath risgiau. Byddai unrhyw daliad yn amodol ar gyngor ysgrifenedig gan yr heddlu ar y graddau y mae'r fath fesurau yn angenrheidiol.

## Teithio y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd

42. Ar hyn o bryd mae Pennod 5 o'n Penderfyniad yn caniatáu i Aelodau'r Cynulliad wneud pedair taith, yno ac yn ôl, o fewn yr Undeb Ewropeaidd mewn unrhyw flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, gall fod adegau lle byddai ymweliad gan Aelod y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd yr un mor fuddiol o ran darparu cyfleoedd i gyfnewid syniadau, ystyried materion a chodi ymwybyddiaeth o waith y Cynulliad, a fyddai oll yn gwbl gysylltiedig â rôl Aelod.

43. Cawsom sylwadau gan y Llywydd a nifer o Aelodau yn gofyn am ddiwygio'r Penderfyniad er mwyn caniatáu teithio ymhellach am y rhesymau a amlinellwyd uchod.

**Penderfyniad**

44. Byddwn yn diwygio'r Penderfyniad fel bod Aelodau yn gallu teithio y tu allan i'r UE ar yr amod bod prif ddiben yr ymweliad yn gysylltiedig â chyflawni eu rôl fel Aelodau'r Cynulliad. Bydd cymeradwyo'r fath ymweliadau yn amodol ar gyflwyno achos busnes sy'n nodi buddiannau'r ymweliad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn dynodi'r bobl neu'r sefydliadau yr ymwelir â hwy. Fel sydd eisoes yn digwydd yn achos ymweliadau rhyngwladol a gynhelir drwy Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad a chyrff eraill, disgwylir i Aelodau gyhoeddi adroddiad ar yr ymweliad ar wefan y Cynulliad.

## Treuliau eithriadol

45. O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen i Aelodau'r Cynulliad gael cymorth ariannol ychwanegol pan fydd materion personol difrifol yn effeithio ar eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau. Fel arfer byddant yn gyfrinachol a gallant godi ar fyr rybudd. Fel Bwrdd, mae gennym ddyletswydd i gynorthwyo Aelodau ymhob agwedd ar eu rôl, ac rydym o'r farn, os tynnir ein sylw at amgylchiadau o'r fath, y dylem fod yn gallu asesu natur y cais mewn modd cadarn a phenderfynu a oes achos dros ddarparu cymorth. Byddai angen ymdrin ag unrhyw geisiadau mewn modd sensitif, tra'n sicrhau trefniadau llywodraethu priodol ar gyfer cofnodi ein hystyriaethau a'n penderfyniadau.

### Penderfyniad

46. Maes o law, byddwn yn diwygio'r Penderfyniad er mwyn egluro'r camau y byddai angen i Aelod eu cymryd wrth gyflwyno cais o'r fath a'r broses y byddem yn ei dilyn wrth asesu a ddylid darparu cymorth ychwanegol. Caiff y diwygiad hwn ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol i ddod ar ôl ymgynghori â'r Llywydd ac Arweinwyr y Pleidiau.

## Cymorth i Aelodau â chyfrifoldebau gofalu

47. Ar sawl achlysur, gofynnwyd i ni ystyried cyflwyno lwfans ar gyfer Aelodau â chyfrifoldebau gofalu, yn debyg i'r trefniadau sydd ar waith yn Nhŷ'r Cyffredin a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi cryn bwyslais ar gydraddoldeb a sicrhau nad oes unrhyw beth yn rhwystro unigolion rhag sefyll mewn etholiad fel Aelod Cynulliad ac, os cânt eu hethol, rhag cyflawni eu dyletswyddau. Gwnaethom ysgrifennu at Aelodau gan nodi y gall fod achos dros dderbyn y fath gynnig ac, os felly, y gallai gynnwys plant, perthnasau oedrannus a phartneriaid ag anghenion penodol. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig hwn, er i Aelodau ddynodi bod angen mwy o wybodaeth arnynt yn ei gylch.

### Penderfyniad

48. Byddwn yn cyhoeddi papur trafod ar y mater er mwyn ymgynghori ag Aelodau ymhellach ac ymgynghori â grwpiau ag arbenigedd yn y maes hwn yn ehangach. Os bydd llawer o gefnogaeth i'r cynnig byddwn yn cynnwys mesur o'r fath mewn Penderfyniad yn y dyfodol yn y Cynulliad hwn. Byddai hyn yn hysbysu ymgeiswyr sy'n sefyll yn etholiad Cynulliad 2016.

# Adolygu fframwaith staffio Aelodau'r Cynulliad

*Mae'r bennod hon yn crynhoi ein penderfyniadau sy'n deillio o'n hadolygiad o fframwaith staffio Aelodau'r Cynulliad. Ym mis Medi 2013 byddwn yn cyhoeddi adroddiad manylach a fydd yn ceisio llywio ymgynghoriad yn y dyfodol yn y maes hwn.*

## Cefndir ein hadolygiad

49. Ers mis Hydref 2012 rydym wedi bod yn cynnal ymgynghoriad helaeth er mwyn adolygu'r canlynol:

    − trefniadau cyflog Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad (SCAC);

    − fframwaith staffio cyffredinol Aelodau'r Cynulliad.

50. Rhoddir crynodeb o'n penderfyniadau yn y maes hwn yn yr adroddiad. Rydym wedi ceisio bod yn agored ac yn dryloyw drwy gydol y broses ac wedi rhannu gwybodaeth gydag Aelodau'r Cynulliad a staff cymorth bob cam o'r ffordd, naill ai drwy Arweinwyr Pleidiau neu grwpiau cyfeirio sy'n cynrychioli Aelodau a'u staff.

51. Rydym bob amser wedi ceisio gwneud pethau gydag Aelodau a'u staff, nid iddynt. Rydym yn ymwybodol mai sefydliad corfforaethol oedd y Cynulliad, nid y ddeddfwrfa ydyw heddiw, pan gafodd trefniadau staffio eu rhoi ar waith i ddechrau. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr iawn ymrwymiad gweithwyr achos i helpu etholwyr a lleisio eu pryderon yn y Pwyllgor a'r Siambr. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth sydd gennym yn dynodi bod staffio yn canolbwyntio'n fwy ar y maes hwn na chyfrifoldebau strategol newydd y Cynulliad. Er mai mater i Aelodau yw'r defnydd o SCAC, rydym yn agored i wobrwyo mwy o gyfrifoldebau staff mewn perthynas â gwaith polisi strategol. Wrth ddod i'r casgliad hwn, rydym wedi gwrando ar geisiadau staff i gamu ymlaen yn eu gyrfa a thystiolaeth gan y Llywydd ac eraill ar natur gymhleth iawn gwaith Aelodau yn craffu ar ddeddfwriaeth ac yn dwyn y Llywodraeth i gyfrif.

52. Yn ein Penderfyniad ar gyfer 2013 rydym wedi llwyddo i gyflwyno rhai mesurau a fydd yn helpu unigolion i gamu ymlaen yn eu gyrfa ac yn gwobrwyo cyfrifoldeb ar lefel staff grŵp. Mewn meysydd eraill - wrth sicrhau bod unrhyw raddfa uwch yn darparu gwerth am arian o ran cyllid cyhoeddus, neu wrth ddod i gytundeb ynghylch yr hyn mae ymchwil a pholisi yn ei olygu - rydym

wedi cael ymatebion croes. Rydym am sicrhau bod unrhyw newidiadau yn gywir cyn y Pumed Cynulliad. Felly, ym mis Medi 2013, byddwn yn cyhoeddi adroddiad manylach ar daliadau SCAC a'r fframwaith staffio. Y bwriad yw y bydd hyn yn llywio ymgynghoriadau ar ein Penderfyniad yn 2014.

## Trefniadau presennol

53. Mae pob Aelod Cynulliad yn cael lwfans staffio sy'n ei alluogi i gyflogi tri swyddog cyfwerth ag amser llawn a thalu costau *ad hoc* fel costau teithio staff, goramser a chomisiynu ymchwil allanol. Rhwng mis Mai 2011 a mis Ebrill 2013 roedd y lwfans hwn yn £89,000 y flwyddyn. Ar gyfer 2012-13 cyfanswm cost y lwfans hwn oedd £6.6 miliwn.

54. Mae gan SCAC ran ganolog i'w chwarae yn cynorthwyo Aelodau i atgyfnerthu'r Cynulliad ac i lawer o etholwyr nhw yw wyneb cyhoeddus a phwynt cyswllt y ddeddfwrfa.

55. Yr Aelod Cynulliad yw'r cyflogwr ac mae'n gyfrifol am ddefnyddio a rheoli ei staff. O ganlyniad, mae trefniadaeth y swyddfeydd yn amrywio'n sylweddol. Mae rhai Aelodau yn dewis penodi rheolwr swyddfa neu weithiwr achos ar y bandiau uchaf, tra bod eraill yn rhoi eu hymchwilydd yn y fath safle. Mae'n well gan rai Aelodau'r Cynulliad ganolbwyntio ar eu dyletswyddau seneddol, gan adael staff yn bennaf cyfrifol am faterion etholaethol a rhanbarthol. Mae eraill yn defnyddio staff cymorth i ymdrin â Busnes Ffurfiol y Cynulliad. Er bod gan bob SCAC deitl swydd cytundebol (ac mewn llawer o achosion ystod eang o deitlau atodol), cydnabyddir yn gyffredinol, mewn swyddfa fach, y bydd angen iddynt gyflawni llawer o dasgau mewn meysydd eraill.

56. Rydym bob amser wedi cydnabod y dylai Aelodau'r Cynulliad gadw'r hyblygrwydd a ddarperir gan y trefniadau presennol sy'n eu galluogi i strwythuro eu swyddfeydd yn ôl blaenoriaethau unigol. Yn wir, rhoddodd ein Penderfyniad cyntaf (Mai 2011) fwy o hyblygrwydd nag o'r blaen i Aelodau fel eu bod yn gallu cyflogi mwy nag un aelod o staff ar bob un o'r bandiau cyflog.

57. Os bydd Aelodau yn dewis peidio â neilltuo swm sylweddol o'u cyllideb staffio i waith polisi a chraffu, yna mater iddynt hwy yw hynny. Fodd bynnag, mae'r holl dystiolaeth sydd ar gael i'r Bwrdd yn dynodi y dylid gwneud rhywfaint o ailwampio yn y maes hwn fel bod y Cynulliad yn gallu datblygu mewn ymateb i'w cymhwysedd deddfwriaethol cynyddol.

58. Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r unig un o'r pedair deddfwrfa yn y DU sydd â phwyntiau cyflog yn ogystal â graddfeydd cyflog ar gyfer staff cymorth. Ceir tri band cyflog y gall cyflogeion ddatblygu ynddynt yn flynyddol yn amodol ar berfformiad boddhaol ac adolygiad gan yr Aelod sy'n eu cyflogi. Mae hyn yn golygu, dros gyfnod o bum mlynedd, y gall cyflogeion gyrraedd y brig o fewn eu graddfeydd cyflog.

59. Yn Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon nid oes graddfeydd cyflog na swyddi diffiniedig. Er bod swyddi diffiniedig a bandiau cyflog yn San Steffan, nid oes yr un datblygiad cyflog gwarantedig gwirioneddol ar gyfer y sawl a gyflogir gan Aelodau Seneddol. Fodd bynnag, yn San Steffan, gall Aelodau benodi ystod ehangach o fandiau cyflog o fewn eu cyllideb staffio, sy'n golygu eu bod yn gallu penodi staff ar lefel uwch os dymunant wneud hynny.

60. Fel rhan o gam cyntaf ein gwaith yn 2011, gwnaethom gytuno i gynyddu pwyntiau cyflog o fis Ebrill 2011 yn unol â'r newid o 2.3 y cant yn y Mynegai Enillion Cyfartalog (fel yr oedd ym mis Rhagfyr 2010), a chynnydd pellach o £550 o 6 Mai 2011, gan gynrychioli cyfuno taliadau bonws dewisol blaenorol â chyflogau. Gyda'i gilydd, cafwyd cynnydd o 4-6 y cant yn sgil y ddwy elfen hyn, yn dibynnu ar y raddfa gyflog a cholofn gyflog. Cafodd graddfeydd cyflog eu rhewi ar y lefelau hyn tan fis Ebrill 2013. Cafodd y penderfyniad hwn ei wneud ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth oedd ar gael yn ofalus, yn cynnwys meincnodi rolau SCAC yn erbyn cymharwyr rhesymol, ac ystyried cyd-destunau economaidd Cymru a'r DU yn ehangach.

61. O ystyried penderfyniad gan y Cynulliad yn 1999 i gyflwyno pwyntiau cyflog, mae disgwyliadau uwch yn gyffredinol o godiadau cyflog a gyrfa hir fel SCAC nag yng nghanolfannau deddfwriaethol eraill y DU. Mae'r Bwrdd yn cydnabod yr anawsterau a wynebir gan staff a benodwyd flynyddoedd yn ôl sydd wedi cyrraedd y brig o ran eu graddfeydd cyflog.

## Methodoleg

62. Rydym wedi ceisio sicrhau bod ein hadolygiad yn drylwyr ac yn fanwl. Gwnaethom ystyried ystod eang o safbwyntiau a thystiolaeth ac rydym wedi ymgynghori bob cam o'r ffordd. Fel rhan o'r broses hon, rydym wedi siarad ag Aelodau'r Cynulliad, staff cymorth (yn unigol ac mewn grwpiau) a grwpiau cyfeirio sy'n cynrychioli'r ddwy set o randdeiliaid, gan gynnwys Undebau Llafur, a chael sylwadau ysgrifenedig ganddynt. Rydym wedi cael tystiolaeth gan samplau cynrychioliadol o 20 o Aelodau (33 y cant) a 58 o staff cymorth (20 y cant).

63. Rydym hefyd wedi ystyried ffactorau economaidd a pholisi cyflogau'r sector cyhoeddus sydd wedi pennu terfyn o 1 y cant o ran codiadau cyflog ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Wrth asesu priodoldeb graddfeydd cyflog SCAC, gwnaethom ddefnyddio'r data diweddaraf o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (Tachwedd 2012), cymharwyr eraill fel y nodwyd gan Aelodau a'u staff, a swyddi tebyg yn neddfwrfeydd eraill y DU.

## Cyd-destun a chrynodeb o'r dystiolaeth

64. Yn dilyn Refferendwm 2011, cafodd y Cynulliad bwerau deddfu llawn mewn 20 o feysydd ac o ganlyniad mae'r cyfrifoldebau ar Aelodau hyd yn oed yn fwy. Mae cyflwyniadau diweddar i Gomisiwn Silk wedi dynodi uchelgeisiau i ddatganoli llawer mwy o bwerau i Gymru. Mae effaith y dirwedd gyfansoddiadol bresennol a newidiol ar allu ac adnoddau'r sefydliad wedi bod yn ystyriaeth bwysig wrth i ni wneud y gwaith hwn. Yn anochel, mae newid cyfansoddiadol o'r fath yn effeithio ar allu ac adnoddau Aelodau, eu hangen i flaenoriaethu amser, llwythi gwaith a'r ffordd y maent yn dewis defnyddio eu hadnoddau staffio.

65. Mae llawer o'r rhai a siaradodd â ni yn ystod ein hadolygiad wedi pwysleisio'r heriau sy'n wynebu'r Cynulliad nawr ac yn y dyfodol. Nodwyd bod yn rhaid sicrhau bod gan Aelodau ddigon o adnoddau i ateb yr heriau hynny, yn enwedig pwerau deddfu cynyddol y Cynulliad a'r potensial am fwy o gyfrifoldeb ariannol. Rydym wedi ystyried tystiolaeth gan y Llywydd ac eraill y dylem - o gofio pwerau newydd y Cynulliad - ystyried gwella gallu ac adnoddau strategol Cynulliad sy'n gyfrifol am graffu ar lawer iawn o waith polisi a gwaith deddfwriaethol. Yn ei thystiolaeth i Gomisiwn Silk, galwodd y Llywydd am gynyddu maint y Cynulliad i 80 o Aelodau er mwyn ei

alluogi i reoli ei gyfrifoldebau fwyfwy cymhleth a bod yn barod am yr heriau y bydd yn eu hwynebu'n anochel yn sgil mwy o bwerau. Mae'n annhebygol y cynyddir nifer yr Aelodau yn y byrdymor i'r tymor canolig ac mae'n rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod gan Aelodau yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i ymdrin â'r galwadau sy'n eu hwynebu hwy a'r Cynulliad nawr, fel eu bod yn gallu cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Felly, rydym yn dal i gredu, mewn deddfwrfa fach o 60 o Aelodau'n unig, ei bod yn briodol i'r Cynulliad Cenedlaethol gael lwfans staffio mwy na'r deddfwrfeydd datganoledig eraill.

66. Ceir cryn amrywiadau yn y dystiolaeth a roddir i ni, wrth ateb yr un cwestiynau, gan Aelodau a SCAC:

**Ffigur 1 : Crynodeb o'r dystiolaeth**

| Materion a themâu | Aelodau'r Cynulliad | Staff Cymorth |
|---|---|---|
| Maint y sampl | 20 (33%) | 58 (21%) |
| Prif weithgareddau gwaith staff | Busnes y Cynulliad<br>Ymchwil/polisi<br>Gwaith achos | Gwaith achos<br>Ymchwil/polisi<br>Gweinyddiaeth gyffredinol |
| Canran y staff sy'n gwneud ymchwil[2] yn eu gwaith | 75% (15 allan o 20) | 80% (37 allan o 46) |
| Canran amser staff a gaiff ei dreulio ar ymchwil sy'n cefnogi Busnes ffurfiol y Cynulliad. | 50% | 40% |
| Sgiliau allweddol i fod yn effeithiol yn y rôl | Sgiliau pobl<br>Ymchwil/dadansoddol<br>Rheoli amser | Sgiliau pobl<br>Sgiliau cyfathrebu<br>Rheoli amser |
| Canran sy'n cyflawni adolygiad o berfformiad (yn amrywio o'r anffurfiol i'r blynyddol) | 85% (17 allan o 20) | 50% (23 allan o 46) |
| Cytuno bod disgrifiadau swydd SCAC yn adlewyrchu'r gwaith a wnânt yn gywir. | 79% (11 allan o 14) | 61% (27 allan o 44) |
| Angen mwy o hyfforddiant ymchwil | 65% (13 allan o 20) | 79% (22 allan o 28) |
| Profiad blaenorol neu sgiliau sy'n berthnasol i rôl SCAC | Ymchwil/dadansoddol<br>Profiad bywyd<br>Sgiliau pobl | Cymwysterau academaidd<br>Profiad gwaith<br>Sgiliau pobl |
| Sylwadau eraill | Angen mwy o staff/oriau<br>Materion rhanbarthol<br>Mwy o hyblygrwydd o ran y fframwaith staffio ac yn debygol o fynd yn brysurach yn y dyfodol | Diffyg camu ymlaen mewn gyrfa<br>Angen cymorth adnoddau dynol ar gyfer SCAC<br>Swydd heriol/oriau hir |

*[2] Er bod y Bwrdd yn glir fod ei gwestiynau ymchwil yn ymwneud â gwaith craffu a pholisi, ehangwyd hyn mewn ymatebion er mwyn cynnwys ymchwil ar gyfer llythyrau, gwaith achos, cyfarfodydd cyhoeddus a chyswllt â'r Gwasanaeth Ymchwil yn y Cynulliad.*

## Cynigion a phenderfyniadau - cyffredinol

67. Rydym wedi rhoi nifer o benderfyniadau ar waith a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013. Amlinellir y rhain isod.

### Dyfarniad cyflog o 1 y cant

68. Cafodd y graddfeydd cyflog presennol eu gwerthuso yn erbyn cymharwyr addas yng Nghymru er mwyn pennu p'un a oedd cyflogau wedi parhau i aros yr un peth â rolau tebyg yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn fras. Roedd yr ymarfer hwn yn seiliedig ar dystiolaeth a gafwyd gan sampl gynrychioliadol o Aelodau a'u staff, disgrifiadau swydd a data cymharol.

69. Cafodd swyddi eu meincnodi yn erbyn rolau priodol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, a oedd yn cynnwys cymharwyr a awgrymwyd gan Aelodau a'u staff. Roedd y rhain yn cynnwys gweithwyr achos y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, gweithwyr achos gwasanaethau cymdeithasol, ymchwilwyr prifysgolion, swyddogion gweithredol a rheolwyr iau yn y gwasanaeth sifil. Ymhlith y cymharwyr eraill a enwebwyd gan SCAC ac Aelodau roedd gweithwyr achos awdurdodau lleol, swyddogion polisi a swyddogion cwynion awdurdodau lleol, a swyddogion polisi a chyfathrebu yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, yn ogystal â staff a gyflogir gan Gomisiwn y Cynulliad.

70. Cafodd y data a gasglwyd ei groesgyfeirio wedyn yn erbyn cymharwyr perthnasol a gafodd eu cynnwys yn yr Arolwg Blynyddol diweddaraf o Oriau ac Enillion (ABOE) ar gyfer 2012. Dangosodd yr ymarfer dilysu hwn, yn y rhan helaeth o achosion, fod y graddfeydd cyflog presennol yn dal i fod yn briodol ar gyfer y swyddi a gyflawnir gan staff Aelodau'r Cynulliad o gymharu â rolau tebyg yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, fel y dangosir yn y ffigur isod.

**Ffigur 2: Cyflogau Staff Cymorth ar gyfartaledd o gymharu â data ABOE 2012 ar gyfer galwedigaethau cymaradwy yng Nghymru**

| | Cyflogau SCAC 31 Hydref 2012 | | Data ABOE Tachwedd 2012 | |
|---|---|---|---|---|
| | Ystod Cyflog | Cyfartaledd Gwirioneddol | Cymedr | Canolrif |
| Cymorth Grŵp Ychwanegol | £30,404 - £37,138 | £35,219 | £30,663 | £34,618 |
| Band 1 | £22,594 – £31,890 | £30,922 | £28,447 | £30,353 |
| Band 2 | £19,296 - £28,287 | £25,595 | £19,423 | £19,962 |
| Band 3 | £17,472 - £23,563 | £21,218 | £17,295 | £18,891 |

71. Fel rhan o'r ymarfer hwn, gwnaethom roi ystyriaeth ddifrifol i gyflwyniadau Aelodau a'u staff a wnaeth gymariaethau uniongyrchol rhwng rolau cyflogeion Aelodau a staff Comisiwn y Cynulliad a galw am hwyluso camu ymlaen mewn gyrfa mewn modd tebyg. Er bod rhywfaint o orgyffwrdd ac elfennau tebyg, ni fu'n bosibl gwneud cymhariaeth gyffredinol oherwydd yr ystod eang o sgiliau, cymwysterau, profiad, lefelau o gyfrifoldeb a dyletswyddau dynodedig ymhlith staff yn swyddfeydd Aelodau. Cafwyd gwrthwynebiad hefyd i asesiad strwythuredig fel rhan o'r broses benodi ar gyfer ein swydd Uwch Gynghorydd arfaethedig (gweler isod), yn debyg i'r hyn a ddefnyddir wrth recriwtio uwch ymchwilwyr a gyflogir gan Gomisiwn y Cynulliad.

### Penderfyniad

72. Mae polisi cyflogau'r sector cyhoeddus wedi pennu terfyn o 1 y cant ar gyfer codiadau cyflog cyffredinol yn y sector cyhoeddus. Yn sgil hyn, a'n hasesiad o briodoldeb y graddfeydd cyflog presennol ar gyfer y swyddi a gyflawnir, mae'r dyfarniad cyflog ar gyfer SCAC yn y flwyddyn ariannol gyfredol yn cyfateb i godiad cyflog o 1 y cant. Daeth y codiad cyflog hwn i rym ar 1 Ebrill 2013 ac fe'i derbyniwyd gan Aelodau a'u staff. Byddwn yn ailystyried y penderfyniad hwn ar yr adeg briodol yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol er mwyn cytuno ar ddyfarniad cyflog 2014-15. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14, bydd Aelodau'r Cynulliad yn derbyn lwfans staffio o £89,890. Nodir y graddfeydd cyflog newydd isod.

**Ffigur 3: Graddfeydd cyflog ar gyfer staff cymorth Aelodau'r Cynulliad 2013-14**

| | Pwynt cyflog 1 | Pwynt cyflog 2 | Pwynt cyflog 3 | Pwynt cyflog 4 | Pwynt cyflog 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Grŵp Ychwanegol | £30,708 | £32,281 | £33,936 | £35,676 | £37,509 |
| Band 1 | £22,820 | £24,866 | £27,101 | £29,541 | £32,209 |
| Band 2 | £19,489 | £21,437 | £23,587 | £25,955 | £28,570 |
| Band 3 | £17,647 | £19,014 | £20,488 | £22,080 | £23,799 |

### Recriwtio ac adolygu cyflogau

73. Ar ddechrau'r Cynulliad hwn cyflwynwyd gofyniad gennym y dylid hysbysebu pob swydd wag yn swyddfeydd Aelodau yn agored. Y rheswm dros hyn oedd sicrhau bod y broses ar gyfer llenwi swyddi yn swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad yn dryloyw. Er i ni gael peth adborth cadarnhaol, gwnaethom hefyd glywed y gall fod adegau pan fyddai'n fuddiol ystyried, yn y lle cyntaf, recriwtio unigolion cymwys yn fewnol, gan roi mwy o gyfle i staff gael eu dyrchafu, cyflymu'r broses recriwtio a darparu gwell gwerth am arian.

### Penderfyniad

74. Rydym wedi cyflwyno mwy o hyblygrwydd i Aelodau hysbysebu swyddi gwag yn fewnol yn y lle cyntaf, i'w staff eu hunain, neu o fewn y grŵp pleidiol, lle gall fod ymgeisydd cymwys am y swydd. Rhaid dilyn proses gyfweld ac asesu ffurfiol o hyd wrth benodi unigolion.

75. Bydd aelodau hefyd yn gallu cynnal adolygiad o gyflogau gydag aelodau o staff ar ôl y cyfnod prawf chwe mis, y mae'n rhaid i bob aelod o staff ei gyflawni'n llwyddiannus cyn cael ei benodi'n barhaol. O ganlyniad, lle mae aelod o staff cymorth wedi cael ei benodi i'r pwynt cyntaf yn ei fand ac, yn amodol ar dystiolaeth o adolygiad ffurfiol yn dangos perfformiad boddhaol, caiff y cyflogai symud i'r pwynt nesaf ar y raddfa gyflogau. Dim ond i benodiadau newydd y bydd hyn yn gymwys pan fo'r cyflogai wedi dechrau ar bwynt gwaelod eu band cyflog. Caiff unrhyw adolygiad dilynol ei gynnal bob blwyddyn.

### Gwyliau Blynyddol

76. Ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad gwnaethom gyflwyno contractau safonol ar gyfer staff Aelodau er mwyn sicrhau telerau ac amodau cyson. Bydd staff sydd wedi ymuno ers hynny ar delerau'r contract safonol ac mae llawer a oedd eisoes yn eu swydd hefyd wedi trosglwyddo i'r contract hwn. Fodd bynnag, mae rhai staff yn dal i fod ar y telerau a oedd ar waith cyn etholiad Mai 2011.

77. Yn ystod ein hadolygiad, cawsom dystiolaeth gan lawer o staff cymorth yn galw am gynyddu nifer y diwrnodau o wyliau blynyddol yn y contract safonol o 28 i 31. Roedd llawer o'r farn y byddai cynyddu'r gwyliau yn y fath fodd yn galluogi'r rheini sydd wedi bod yn amharod i ymrwymo i'r contract safonol oherwydd amrywiadau yn eu trefniadau ar gyfer gwyliau blynyddol i gytuno i gontract safonol diwygiedig â threfniadau gwell o ran gwyliau blynyddol.

### Penderfyniad

78. Ers 1 Ebrill 2013, caiff staff cymorth Aelodau'r Cynulliad sydd wedi ymrwymo i'r contract safonol 31 diwrnod o wyliau blynyddol. Mae'r nifer gynyddol o ddiwrnodau yn adlewyrchu'r ffaith na all staff cymorth a leolir yn swyddfeydd y Cynulliad ym Mae Caerdydd, sef Tŷ Hywel, ddefnyddio'r holl wasanaethau yn yr adeilad pan fydd gwasanaethau a chyfleusterau yn llawer llai, yn enwedig dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Fodd bynnag, mater i Aelodau unigol a'u staff fydd penderfynu os a phryd y caiff y diwrnodau ychwanegol eu cymryd mewn gwirionedd.

79. Cyflogwyr unigol yw Aelodau'r Cynulliad a mater iddynt hwy, mewn ymgynghoriad â'u staff, fydd penderfynu a ddylid ehangu'r cyfnod o wyliau ai peidio.

## Cynigion a phenderfyniadau - gwella gallu ac adnoddau'r Cynulliad

80. Ymhellach at y newidiadau uchod a roddwyd ar waith ar 1 Ebrill, am resymau a nodwyd ar ddechrau'r bennod hon, gwnaethom barhau i ymgynghori ar nifer o gynigion eraill. Gwnaethom ddod i benderfyniadau terfynol ar y rhain yn ein cyfarfod ar 21 Mehefin ac rydym wedi ysgrifennu at bob Aelod a staff cymorth i gadarnhau ein sefyllfa.

### Uwch Gynghorydd

81. Mae lefelau taliadau yn gysylltiedig â chyfrifoldebau. Er na ellir cyfiawnhau cynnydd o fwy nag 1 y cant yn gyffredinol yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, rydym yn cydnabod y gall fod achos dros gyflogau uwch ar gyfer swyddi â mwy o gyfrifoldebau. Yn ystod ein hadolygiad, rydym wedi cael tystiolaeth gan lawer o staff ac Aelodau bod y diffyg cyfleoedd i gamu ymlaen mewn gyrfa yn bryder mawr.

82. Ar sail tystiolaeth a gyflwynwyd gan y Llywydd ac eraill ar effaith y Cynulliad yn cael mwy o bwerau deddfwriaethol, rydym yn cydnabod y ffaith bod gan Aelodau fwy o gyfrifoldebau o ran Busnes ffurfiol y Cynulliad mewn deddfwrfa â dim ond 60 o Aelodau. Gwnaethom ymgynghori ar gynnig i sefydlu rôl Uwch Gynghorydd er mwyn rhoi cymorth lefel uchel i Aelodau unigol ar faterion o bwys strategol yn lleol ac yn genedlaethol, ac mewn perthynas â busnes ffurfiol y Cynulliad a'i bolisïau.

83. Mae ein cyfiawnhad dros y cynnig hwn yn glir ac rydym yn dal i gredu'n gryf y dylai gallu ac adnoddau'r Cynulliad a'i Aelodau gael eu gwella er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau newydd cymhleth.

84. Er bod llawer yn croesawu'r cynnig hwn ac yn credu y byddai o fudd gwirioneddol iddynt fel Aelodau ac i'r Cynulliad fel deddfwrfa, ni chafodd gefnogaeth gan bawb. Felly, nid ydym yn bwriadu parhau â'r cynnig hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol ond caiff ei adael ar y bwrdd i'w ystyried yn 2014.

### Cronfa Polisi ac Ymchwil

85. Yn ogystal ag ystyried creu rôl newydd, gwnaethom ymgynghori ar gynnig i ehangu'r defnydd o'r Gronfa Ymgysylltu[3] fel bod modd cynnal ymchwil strategol â therfyn amser gan staff Aelodau ac arbenigwyr allanol. Ein bwriad oedd sicrhau bod hyd at £2,000 y flwyddyn ar gael i bob Aelod at ddiben ymchwil neu waith polisi CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol) wedi'i gomisiynu'n fewnol neu'n allanol. Byddai'r swm hwn yn ychwanegol at gyllidebau staffio Aelodau ac yn rhoi cyfle i staff wneud gwaith prosiect mwy cymhleth a fyddai'n darparu cyfleoedd datblygu, ac y byddent yn cael eu talu amdano. Lle, yn

[3] *Cafodd y Gronfa Ymgysylltu ei chyflwyno ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad. Gallai Aelodau ddefnyddio hyd at £2,000 o'r balans sy'n weddill o'u lwfans staffio er mwyn cael arbenigedd allanol i gynghori neu gynorthwyo, am gyfnod penodol, ar dasg neu ddarn o waith penodol.*

flaenorol, y bu modd i Aelodau gomisiynu ymchwil allanol yn amodol ar argaeledd cronfeydd sy'n weddill yn eu lwfans staffio, byddai'r swm hwn yn ychwanegol.

86. Er i lawer groesawu'r awgrym hwn a theimlo y byddai'n fuddiol, codwyd cryn bryderon am y cynnig hwn, gyda rhai yn dweud ei fod yn paratoi'r ffordd am "y diwylliant bonws" unwaith eto.

87. Yn unol â'r adborth a gawsom, ni fyddwn yn cyflwyno trefniadau i alluogi staff i gael taliadau am waith o'r fath yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Fodd bynnag, rydym yn agored i drafodaethau pellach yn 2014.

### Penderfyniad

88. Byddwn yn parhau â'r cynnig i ddarparu cronfa ychwanegol i Aelodau fel bod modd ei defnyddio i gomisiynu ymchwil allanol. Fel bod ei diben yn glir, fe'i gelwir yn Gronfa Polisi ac Ymchwil. Bydd ar gael i ariannu ymchwil allanol ar gyfer datblygu polisi, ymchwilio i faterion o bwys yn eu hetholaeth neu ranbarth, neu graffu ar bolisi, deddfwriaeth neu gyllid. Bydd Aelodau yn gallu cyfuno'r cronfeydd hyn er mwyn comisiynu darnau mwy o waith, er y bydd hyn yn unol ag arfer caffael gorau.

89. Byddwn yn monitro'r defnydd o'r Gronfa Polisi ac Ymchwil a'i gwerth o ran cynnig arbenigedd ychwanegol er mwyn helpu Aelodau dros y 12 mis nesaf, ac yn adolygu'r broses o weithredu'r gronfa newydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.

90. Bydd grwpiau pleidiol hefyd yn gallu comisiynu ymchwil allanol yn y ffordd hon. Ni fydd cap o £2,000 ar gyfer y grwpiau, er y bydd eu hadnoddau comisiynu yn amodol ar argaeledd cronfeydd o fewn y Lwfans Cymorth i Grwpiau.

### Mwy o gymorth i Grwpiau

91. Yn ogystal ag awgrymu ffyrdd o gynyddu'r cymorth sydd ar gael i Aelodau unigol o'r Cynulliad, gwnaethom hefyd ddatblygu cynigion i wella gallu ac adnoddau'r grwpiau pleidiol. Mae'r grŵp canolog yn chwarae rhan allweddol ymhob plaid. Yn achos y gwrthbleidiau, mae'r swyddogaeth hon yn hanfodol gan eu helpu i ddwyn y Llywodraeth i gyfrif a llunio polisïau amgen. Ar gyfer plaid mewn Llywodraeth, mae staff grŵp yn chwarae rôl yn y broses strategol o gydgysylltu gweithgareddau ei aelodau a bod yn gyswllt rhwng y Llywodraeth ac Aelodau'r meinciau cefn. Pennwyd cyllidebau grŵp canolog gan Gomisiwn y Cynulliad yn y Trydydd Cynulliad ac nid ydym wedi gwneud unrhyw newidiadau i'r rhain ers i ni gael ein sefydlu fel Bwrdd a chredwn yn gryf fod y grwpiau'n cyflawni rôl hanfodol o ran gweithrediad effeithiol y Cynulliad fel deddfwrfa.

92. Caiff gweithgareddau pob grŵp, p'un a yw mewn llywodraeth neu'n wrthblaid, eu cydgysylltu gan uwch aelod o staff. Yn y Cynulliad y Penaethiaid Staff neu swyddogion cyfatebol yw'r rhain. Mae gan ddeiliaid y swyddi hyn fwy o gyfrifoldebau nag unrhyw rôl arall yn y grwpiau ac o fewn y fframwaith staffio. Maent yn rhoi cymorth strategol i Arweinwyr Pleidiau, Rheolwyr Busnes a phob Aelod yn y grwpiau, ac maent yn goruchwylio gweithrediad a gweithgareddau swyddfeydd y grŵp. Fel arfer maent yn rheoli tîm o ymchwilwyr a swyddogaeth cyfryngau'r grŵp. Mae ganddynt gryn gyfrifoldeb sydd wedi cynyddu wrth i'r Cynulliad gael pwerau a dod yn

ddeddfwrfa lawn. Mae natur gymhleth y swyddi hyn yn creu gwerth cyffredin o ran graddau'r cyfrifoldeb sydd ganddynt ac rydym yn glir nad yw deiliaid y swyddi hyn wedi cael eu talu'n ddigonol hyd yma.

### Penderfyniad

93. Caiff cyllideb Cymorth Grŵp ar gyfer pob grŵp pleidiol ei chynyddu yn unol â'r tabl isod. Gwneir hyn er mwyn atgyfnerthu eu gallu ac adnoddau polisi ac ymchwil a'u galluogi i benodi staff ar lefel uwch a fydd yn cyflawni gwaith cymhleth sy'n gysylltiedig â gweithrediad y Cynulliad fel deddfwrfa. Bydd gan bob grŵp gyllideb ddigonol i'w alluogi i benodi Pennaeth Staff, Cymorth Grŵp Ychwanegol a Band 2. Bydd nifer y penodiadau Band 1 y gall pob grŵp eu gwneud yn dibynnu ar faint y grŵp, ond bydd yn cynyddu yn unol â nifer yr Aelodau mewn grŵp. Bydd gan bob grŵp falans sy'n weddill i'w dalu hefyd ar gyfer costau fel teithio staff, goramser a'r Gronfa Polisi ac Ymchwil.

94. Er bod ein cyfrifiad yn seiliedig ar y model canlynol, ni fwriedir iddo orfodi strwythur staffio penodol ar grwpiau pleidiol. Byddant yn cadw'r hyblygrwydd i strwythuro eu swyddfa grŵp yn unol â'u hanghenion a phenodi unigolion i swyddi sy'n bwysig iddynt ymhob band cyflog, er ein bod yn disgwyl i'r cronfeydd ychwanegol gael eu targedu tuag at bolisi ac ymchwil sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Cynulliad fel deddfwrfa.

### Ffigur 4: Cymorth i Grwpiau

| Maint Grŵp | Pennaeth Staff | Cymorth Grŵp Ychwanegol | Band 1 | Band 2 | Band 3 | Lwfans Grŵp 2013-14 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tri neu fwy o Aelodau, gydag Aelod yn Llywodraeth Cymru | 1 | 1 | 1 | 1 | - | £144,598 |
| Rhwng tri a deg Aelod nad yw'n rhan o'r Llywodraeth | 1 | 1 | 3 | 1 | - | £220,125 |
| Rhwng 11 a 15 Aelod nad yw'n rhan o'r Llywodraeth | 1 | 1 | 4 | 1 | - | £255,364 |

95. Rydym wrthi'n cyflwyno band cyflog newydd ar gyfer Penaethiaid Staff. Bydd y band hwn 10 y cant yn uwch na'r cyflog Cymorth Grŵp Ychwanegol ac mae'n adlewyrchu'r cyfrifoldebau sylweddol mwy sydd gan ddeiliaid y swyddi hyn, yn enwedig yn sgil y ffaith bod gan y Pedwerydd Cynulliad fwy o bwerau. Dim ond un swydd llawn amser neu gyfatebol fesul grŵp pleidiol a ariennir yn y ffordd hon.

### Ffigur 5: Band Pennaeth Staff 2013 - 2014

| | Pwynt cyflog 1 | Pwynt cyflog 2 | Pwynt cyflog 3 | Pwynt cyflog 4 | Pwynt cyflog 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Pennaeth Staff | £33,779 | £35,509 | £37,330 | £39,244 | £41,260 |

## Costau ein penderfyniadau

96. Crynhoir uchafswm cost posibl y penderfyniadau a wnaed gennym o ran lwfans staffio Aelodau isod:

### Ffigur 6: Adolygiad o'r fframwaith staffio - costau ein penderfyniadau

| Penderfyniad | Uchafswm Cost Posibl |
|---|---|
| Codiad cyflog o 1% ar gyfer pob SCAC | £61,223 |
| Cyflwyno Cronfa Polisi ac Ymchwil | £120,000 |
| Lwfans Cymorth i Grwpiau uwch | £80,518 |
| **Cyfanswm** | **£261,741** |

# Rhaglen Waith 2013-14

*Mae'r bennod hon yn crynhoi ein gwaith dros y flwyddyn nesaf ac am weddill y Pedwerydd Cynulliad.*

## Rhaglen Waith 2013-16

97. Mae'r system cymorth ariannol a amlinellir yn ein Penderfyniad ar gyfer y pedair blynedd o ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad. Fel y nodwyd gennym yn ein hadroddiadau blaenorol, mae Deddf Seneddau Cyfnod Penodol 2011, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Medi 2011, wedi arwain at ehangu tymor y Pedwerydd Cynulliad i bum mlynedd.

98. Dros y ddwy flynedd nesaf byddwn yn adolygu'r penderfyniadau rydym wedi eu gwneud ynghylch lefelau cyflogau Aelodau er mwyn asesu a yw'r system cymorth ariannol yn briodol i flwyddyn olaf y Pedwerydd Cynulliad.

99. Cyn i etholiadau nesaf y Cynulliad gael eu cynnal yn 2016, byddwn yn pennu cyfanswm y pecyn taliadau a'r system cymorth ariannol sy'n briodol i Aelodau'r Pumed Cynulliad. Mae hyn yn debygol o gynnwys asesu pwys a chyfrifoldebau rolau Aelodau'r Cynulliad, Gweinidogion a deiliaid swyddi eraill yn sgil datblygu'r Pedwerydd Cynulliad. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, byddwn yn parhau i weithio ar bensiynau Aelodau'r Cynulliad. Byddwn hefyd yn monitro datblygiadau yn San Steffan a phenderfyniadau a wneir gan yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol sy'n effeithio ar gyflogau a phensiynau Aelodau Seneddol.

100. Bydd ein gwaith yn y maes hwn yn dechrau yn ystod blwyddyn ariannol 2013-14.

# Cylch Gwaith ac Aelodaeth y Bwrdd Taliadau

Cafodd y Bwrdd Taliadau ei sefydlu gan *Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.*

Mae'r Bwrdd yn gorff statudol annibynnol sy'n gyfrifol am y canlynol:

- darparu lefel taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad sy'n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y maent yn eu cyflawni, ac nad yw, ar sail ariannol, yn atal personau â'r ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad;
- darparu adnoddau i Aelodau'r Cynulliad sy'n ddigon i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau fel Aelodau;
- sicrhau cywirdeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwariant cyllid cyhoeddus.

Wrth gyflawni ei gylch gwaith, mae'n ofynnol i'r Bwrdd weithredu mewn ffordd agored a thryloyw, a, lle mae'r Bwrdd o'r farn ei bod yn briodol, ymgynghori â'r rheini y mae cyflawni ei swyddogaethau yn debygol o effeithio arnynt.

Cafodd y Bwrdd ei benodi o dan broses recriwtio deg ac agored ac mae'n cynnwys Cadeirydd a phedwar aelod o'r Bwrdd:



**Y Gwir Anrhydeddus Syr George Reid**
(Cadeirydd)
Gwleidydd, newyddiadurwr ac academydd o'r Alban. Urddwyd yn farchog yn 2012. Cyfrin-Gynghorydd, cyn-AS, ASA, Llywydd Senedd yr Alban a Chadeirydd ei Chorff Annibynnol. Arglwydd Raglaw Swydd Clackmannan. Gweithiodd am 15 mlynedd mewn rhyfeloedd a thrychinebau fel cyfarwyddwr y Groes Goch Brydeinig/Red Crescent. Ymhlith ei benodiadau presennol mae: Comisiynydd Etholiadol y DU ac athro gwadd ym Mhrifysgolion Glasgow a Stirling. Yn ddiweddar arweiniodd adolygiadau llywodraethu strategol yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn yr Alban.



**Sandy Blair CBE**

Cyn-gyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, CLlLC (wedi ymddeol yn 2004). Prif weithredwr awdurdod lleol am 16 mlynedd cyn cael ei benodi i CLlLC, a Llywydd Cymdeithas SOLACE rhwng 1999 a 2000. Wedi cyflawni nifer o benodiadau cyhoeddus ac ymddiriedolaethau megis cyfarwyddwr anweithredol yn yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, HSE, cadeirydd Bwrdd Cyllid Esgobaeth Mynwy a rolau o fewn yr Eglwys yng Nghymru. Wedi bod yn aelod o Bwyllgorau Taliadau UWIC a HSE.



**Mary Carter**

Wedi ymddeol fel Partner yn KPMG ym mis Medi 2008 ac ar hyn o bryd yn aelod o Gorff Adolygu Cyflogau'r Lluoedd Arfog sy'n gwneud argymhellion i Brif Weinidog y DU a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn ar gyflog milwrol, lwfansau iawndal a thaliadau. Â chefndir cyfreithiol, mae wedi arbenigo mewn cynghori cwmnïau yn y DU a thu hwnt, ers dros 20 mlynedd, ar daliadau a chymhellion i gyfarwyddwyr/uwch reolwyr a materion llywodraethu a threthiant cysylltiedig.



**Stuart Castledine**

Cyfrifydd siartredig sydd wedi cyflawni nifer o rolau ariannol a rheoli cyffredinol yn Allied Dunbar, Chartered Trust a Chymdeithas Adeiladu Bristol & West cyn dod yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol cyntaf Tesco. Yn fwy diweddar, mae wedi cyflawni nifer o aseiniadau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan helpu i sefydlu cyd-fentrau a chynghreiriau yn ogystal â bod yn gyfarwyddwr trawsnewid nifer o sefydliadau gwasanaethau ariannol. Un o gyfarwyddwyr anweithredol Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ar hyn o bryd.



**Yr Athro Monojit Chatterji**

Academydd â phrofiad ym maes polisi cyhoeddus, mae wedi cyhoeddi ymchwil mewn meysydd fel penderfynyddion cyflog y sector cyhoeddus a rôl yr undebau llafur. Ar hyn o bryd, mae'n Gymrawd ac yn Gyfarwyddwr Astudiaethau yng Ngholeg Sidney Sussex, Caergrawnt, ac yn Gyfarwyddwr Allanol Astudiaethau mewn Economeg yn Neuadd y Drindod, Caergrawnt. Mae'n Gadeirydd ar Gydgyngor Gwasanaethau Tân a Brys Cenedlaethol y DU (y corff negodi tâl). Mae'n gyn-Gymrawd ac Athro Economeg Gymhwysol ym Mhrifysgol Dundee. Yn gyn-aelod o Gorff Adolygu Athrawon Ysgol sy'n gwneud argymhellion i Brif Weinidog y DU a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau ar gyflogau ac amodau, a hefyd drefniadau llywodraethu athrawon ysgol a phenaethiaid yng Nghymru a Lloegr. Yn gyn-aelod o'r Grŵp Economegwyr, Swyddfa Economeg y Gweithlu, sy'n ystyried materion trawsbynciol ar gyflogau yn y sector cyhoeddus.

# Dadansoddiad o Gostau'r Bwrdd

Dengys y tabl isod y costau uniongyrchol yr aed iddynt gan y Bwrdd Taliadau yn 2012-13. Yn ystod y cyfnod hwn, cafwyd chwe chyfarfod ffurfiol o'r Bwrdd, seminar mewnol a chynhadledd ar gyfer rhanddeiliaid ar bensiynau. Hefyd, cynhaliodd y Bwrdd nifer o gyfarfodydd anffurfiol fel rhan o'i adolygiad o fframwaith staffio Aelodau'r Cynulliad.

### Ffioedd Aelodau'r Bwrdd

| | Y Gwir Anrh Syr George Reid | Sandy Blair | Mary Carter | Stuart Castledine | Monojit Chatterji | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | **£** |
| Cyfradd ddyddiol | 243.00 | 185.00 | 185.00 | 185.00 | 185.00 | |
| Ffioedd | 8,384.25 | 3,515.00 | 3,539.76 | 4,995.00 | 5,439.00 | **25,873.01** |

### Treuliau Aelodau'r Bwrdd

| | Y Gwir Anrh Syr George Reid | Sandy Blair | Mary Carter | Stuart Castledine | Monojit Chatterji | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Milltiroedd car | 221.40 | 425.35 | 145.80 | 180.00 | 372.00 | **1,344.55** |
| Tacsi/Llogi Car | 449.07 | - | 11.60 | - | 146.76 | **607.43** |
| Hedfan | 1,551.24 | - | - | - | 1,749.66 | **3,300.90** |
| Trafnidiaeth Gyhoeddus | 354.76 | - | 357.60 | - | 338.09 | **1,050.45** |
| Llety | 1,176.00 | - | 668.00 | 179.00 | 528.00 | **2,551.00** |
| Cynhaliaeth | 180.80 | 11.25 | 118.70 | 136.00 | 80.62 | **527.37** |
| Cyfanswm | 3,933.27 | 436.60 | 1,301.70 | 495.00 | 3,215.13 | **9,381.70** |

### Costau Ychwanegol

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfodydd Bwrdd | - | - | - | - | - | **630.17** |
| Cyngor arbenigol gan PwC | - | - | - | - | - | **13,880.00** |
| Cynhadledd Pensiynau | - | - | - | - | - | **266.28** |
| Cyfanswm | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **14,845.82** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **50,031.16** |